# Cyfarfod Y Pwyllgor Deddfau

## Cofnodion (LEG(2)-01-07):

### Dyddiad y Cyfarfod: 16 Ionawr 2007
### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.
### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora1, Y Senedd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

#### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

#### Y Gwasanaeth Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Rosemary Butler**

**Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf – LEG(2)-33-2006**

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 5 Rhagfyr 2006.

**Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd**

3.1. Gan nad oedd unrhyw eitemau i'w nodi fe symudodd y Cadeirydd ymlaen yn uniongyrchol i drafod deddfwriaethau.

**Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

4.1 Mewn cysylltiad ?146;r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1419 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Ophthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2007

LC1420 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Amrywiol Ynglyn ?yrsys sy'n Rhagnodi'n Annibynnol, Rhagnodwyr Atodol, Nyrsys-Ragnodwyr Annibynnol a Fferyllwyr-Ragnodwyr Annibynnol) (Cymru) 2007

LC1422 – Rheoliadau Hadau (Cymru) (Diwygiadau ar gyfer Profion a Threialon etc.) 2007

LC1424 – Y Gorchymyn Niwsans Statudol (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007

LC1425 – Y Rheoliadau Niwsans Statudol (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007

LC1426 – Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) (Diwygio) 2007

LC1427 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007

LC1428 – Gorchymyn Ffliw Adar (H5N1 mewn Adar Gwyllt) (Cymru) 2006

LC1429 – Gorchymyn Ffliw Adar (H5N1 mewn Dofednod) (Cymru) 2006

LC1430 – Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol a Chynlluniau Grantiau (Apeliadau) (Cymru) 2006

LC1431 – Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2006

LC1432 - Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006

## Camau Gweithredu

Nid oedd unrhyw gamau gweithredu yn deillio.

## Eitem 5: Deddfwriaeth Rheol Sefydlog 29

LC1423 – Cyfarwyddiadau'r Gwasanaethau Ophthalmig Cyffredinol (Taliadau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Parhaus) (Cymru) 2007

5.1 Mewn cysylltiad ?146;r Cyfarwyddiadau a nodwyd uchod cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorydd Cyfreithiol.

## Eitem 6: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

6.1 Soniodd y Cadeirydd fod Aelodau a staff y Pwyllgor wedi derbyn gwahoddiad gan Gymdeithas Statud y Gyfraith i fynychu cynhadledd ar "Faterion Cyfansoddiadol a'u Heffaith ar Ddeddfwriaeth", fyddai'n cael ei chynnal yn Llundain ar 27 Ionawr 2007. Nododd yr Aelodau'r gwahoddiad.

6.2 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 23 Ionawr 2007.